

AT: Holl Gynghorwyr Tref
ODDI WRTH: M.E.Thomas, Clerc

PWNC: Praesept 2017-18
DYDDIAD: 12 Ionawr, 2017

**ADRODDIAD AR GYNIGION Y GYLLIDEB CYNGOR TREF LLANBEDR PS AR
GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL YN CYCHWYN AR Y 1AF EBRILL 2017 AC
YN GORFFEN AR YR 31AIN MAWRTH 2018**

1. AMOD GORCHWYL

Er mwyn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, gofynnwyd i'r Clerc, fel y Swyddog Ariannol, i amcangyfrif gwariant y flwyddyn nesaf ac i wneud argymhellion priodol. Galluoga hyn i Gynghorwyr benderfynu ar lefel y Praesept 2017-18. Cyflwynir yr Adroddiad gerbron y Cyngor Tref erbyn y 12fed o Ionawr.

RHAGARWEINIAD-GWYBODAETH GEFNIDIROL

Beth yw'r "Praesept"? Cyfran o'r Treth Cyngor yw'r Praesept.

Ffurf ar drethi lleol yw Treth y Cyngor sy'n cael ei godi gan gynghorau lleol ar bobl sydd naill ai'n byw mewn eiddo domestig neu'n berchen ar eiddo.

Caiff yr union swm ei gyfrif drwy adio'r hyn sydd ei angen ar Sir Ceredigion, Awdurdod Heddlu Dyfed Powys a Chynghorau Tref a Chymuned. Bydd yr arian a gaiff ei gasglu o fwy na 30,000 o gartrefi, ynghyd â grantiau gan y Llywodraeth, yn cael ei ddefnyddio i ddarparu nifer o wahanol wasanaethau yn y sir. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am ddarparu nifer o wasanaethau sy'n cynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol, llyfrgelloedd, cynnal a chadw priffyrdd, goleuadau ar y stryd, rheoli adeiladu, cynllunio a datblygu economaidd, y rhaglen parcio a theithio, rhaglenni tocynnau teithio mantais, cludiant teithwyr, mynwentydd, safonau masnach, rheoli gwastraff, tai cyngor, cymorth i'r digartref, canolfannau hamdden, parciau, meysydd chwarae, marchnadoedd, budd-dal tai, iechyd a diogelwch, hylendid bwyd, canolfannau gwybodaeth, rheoli plâu a gwasanaethau cysylltiedig. Mae 50% o'r dreth yn seiliedig ar yr eiddo ei hun ac mae'r 50% arall yn seiliedig ar elfennau personol a chaiff ei hawlio ar gyfer pob cartref a fflat o fewn ffiniau'r awdurdod ar y dybiaeth bod 2 oedolyn yn byw mewn pob eiddo. Fodd bynnag, os mai un oedolyn yn unig a fydd yn byw yn yr eiddo, mae'n bosib y bydd gostyngiad o 25% ar gael. Tra gall Treth y Cyngor gael ei hawlio ar gyfer eiddo gwag, bydd rhai eithriadau yn gymwys hefyd.

Cynrychiola'r Praesept y Cyngor Tref cyfran fechan cyfanswm y Dreth Gyngor a gasglwyd gan Gyngor Sir Ceredigion yn flynyddol. Er enghraifft, ar gyfer y flwyddyn 2016-17, gellir rhannu'r cyfanswm cyfwerth â **Band D** (canolbris) sef tâl o **£1,368.94** ar gyfer Trethdalwr Cyngor yn Llanbedr PS, a ganlyn:

	£	%	Yr wythnos (oddeutu)
Cyngor Sir Ceredigion	1,123.68	82.08	£21.61
Heddlu Dyfed-Powys	200.07	14.61	£ 3.85
Cyngor Dref Llanbedr PS	45.19	3.31	£0.87
CYFANSWM	£ 1,368.94		

Seilir y tâl ar gyfer pob cartref ar Fand Treth y Cyngor y disgynna'r eiddo; y mae'r manylion wedi eu dyfynnu isod. Ar ben isaf, y mae hyn yn cyfateb, yn ystod 2016-17 yn Llanbedr Pont Steffan, at swm wythnosol o £0.58 a phen uchaf o £2.03 yr wythnos.

GWERTH Y PRAESEPT YN FLYNYDDOL YN ÔL Y BAND 2015-16

BAND A	BAND B	BAND C	BAND D	BAND E	BAND F	BAND G	BAND H	BAND I
£30.13	£35.15	£40.17	£45.19	£55.23	£65.27	£75.32	£90.38	£105.44

BETH YW ASEDU SEFYDLOG Y CYNGOR TREF?

Y mae asedau sefydlog y Cyngor Tref yn cynnwys ardal chwarae "Parc-yr-Orsedd" a'r hyn a gynhwysir o fewn yr ardal megis, Offer Chwarae, 2 Fin "Ailgylchu" , 2 Bloc Craig, 6 Offeryn Ymarfer Corff "Lifetrail", 14 Clogyn Dinesig, Teyrndylsau Dinesig, Addurniadau Nadolig, Cewyll fforch godi, Hysbyswrdd, Cynwysyddion Planhigion, System Gyfrifiadurol. Ar Gae Maesyderi sy'n cael ei brydlesu gan Gyngor Sir Ceredigion: 5 o Feinciau Picnic £ 600 (y gost gwreiddiol); 2 o Feinciau Metel £650 (y gost gwreiddiol); 2 Fin Sbwriel £87 (y gost gwreiddiol).

Hefyd dwy ffens - Maes Chwarae Maesyfelin £8,080 (yn cynnwys TAW) & ym Mharc-yr-Orsedd £5,343. Cyfanswm, Ebrill diwethaf oedd £164,617.83 (Atodiad 4).

Mae rhai eitemau "heb unrhyw werth ariannol" wedi eu heithrio o'r Gofrestr i gynnwys, Bwrdd Rholyn Anrhydedd a phanel mawr, 2 Gadair Eisteddfod, 3 Cadair Beirniaid, 12 cadair lledr, cloc, Plac Patagonia , Plat Ceredigion, 2 Medal Tseinaidd aur. Nid yw'r ffens a godwyd yng Nghae Maesyderi £9,018 (yn cynnwys TAW) ym 2010 wedi ei gynnwys o fewn y Gofrestr. Nodwyd mewn cyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sir Ceredigion yn ddiweddar nad oedd yn angenrheidiol i'r Cyngor Tref i gynnwys yr eitem o fewn y Gofrestr Asedau gan fod perchnogaeth y ffens wedi ei drosglwyddo i Gyngor Sir Ceredigion, Landlord Cae Maesyderi.

Mae'r meinciau a leolwyd o fewn yr Ardd Goffa'r Rhyfel a'r un, y tu allan i'r Fynwent Soar yn eiddo'r Cyngor Tref. Hefyd Ffotograff o'r awyr wedi fframio o Lanbedr Pont Steffan - dyddiedig 8 Mawrth, 1974 a gyflwynwyd gan Goleg y Brifysgol Llanbedr Pont Steffan i Gyngor Bwrdeistrefol Llanbedr Pont Steffan & Llyfr - Rolyn Rhyddfreinwyr Anrhydeddus ar gyfer Bwrdeistref Llanbedr Pont Steffan wedi eu trosglwyddo i Amgueddfa'r Dref.

Yn ôl cyngor Grant Thornton, Archwilydd Cyffredinol Cymru dylai'r eitemau hyn gael eu cynnwys o fewn Gofrestr yr Asedau Sefydlog gan ddyfynnu'r gost i'w prynu'n wreiddiol.

Ymdrecha'r adroddiad hwn gyfrifo'r arian angenrheidiol ar gyfer gweithgareddau'r Cyngor Tref yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf a hefyd bydd yn ymroi i ddarparu gwerth am arian, ar gyfer y Treth-dalwr Cyngor Llanbedr PS.

2. Y DREFN

Er mwyn casglu gwybodaeth perthnasol, gosodwyd y gweithdrefnau canlynol mewn lle:

- 2.1** Adolygwyd Praesept y flwyddyn gyfredol (1 Ebrill 2016 - 31 Mawrth, 2017);
- 2.2** Clustnodwyd sylw i'r arbedion yn ymwneud â'r Camerau Teledu Cylch Cyfyng (CTCC).
- 2.3** Cyfrifwyd incwm a gwariant y flwyddyn bresennol (1 Ebrill- 31 Mawrth 2017) a'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rhagfynegwyd gwariant dyfodol o fis Ionawr i fis Mawrth. (gan gynnwys Ionawr a Mawrth)
- 2.4** Ystyriwyd cyllideb Prosiect Cae Maesyderi.
- 2.5** Cyfrifwyd y swm a ragwelir yng nghronfeydd wrth gefn y Cyfrifon Banc ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, hy 31 Mawrth, 2017.
- 2.6** Arfarnwyd rhoddion i elusennau yng ngoleuni'r fformiwla a luniwyd yn Chwefror 2015.
- 2.7** Ystyriwyd costau parhaus/dyfodol.
- 2.8** Daethpwyd i gasgliadau ac fe gynigiwyd opsiynau o ran y swm a godir dan law'r Praesept (2017-18) .
- 2.9** Gwnaethpwyd argymhellion priodol.

3. CANFYDDIADAU

3.1 ADOLYGIAD O'R PRAESEPT AR GYFER Y FLWYDDYN GYFREDOL (1 Ebrill 2016 –31 Mawrth 2017)

Praesept o £41,000 oedd yn bodoli yn ystod y flwyddyn ariannol hon (y flwyddyn ariannol yn diwedd 31 Mawrth 2017), yr un fath â'r 4 mlynedd ddiwethaf. Cynrychiola hyn gostyngiad o £2,220, o'i gymharu â'r flwyddyn 2012-13. Meddylid yn ystod y Cyfarfod Cyllideb Ionawr 2013 y gellid cynnig gostyngiad, i adlewyrchu'r Taliad CTCC blynyddol ar y pryd, (o £12,000 i £7,500 = £1,250 y camera - 6 o gamerâu). Gwelwyd cysondeb yn ffigur y Praesept yn ystod yr 8 mlynedd blaenorol sef £ 43,220; roedd hyn wedi cynrychioli gostyngiad yn nhermau real o ystyried chwyddiant .

3.2 Y SYSTEM CAMERAU TELEDU CYLCH CYFYNG (CTCC)

Cyflwynwyd y system camerau teledu cylch cyfyng Llambled ym mis Ebrill 2002 a'r cyfraniad blynyddol ar gyfer y Cyngor Tref hyd at yr 8 Ionawr, 2008 oedd £19,600 (ac eithrio TAW), a dalwyd i MLL Telecom Cyf. Ffurfiodd y swm o £19,600 cyfran sylweddol o'r Praesept ac o ganlyniad, roedd Praesept y Cyngor Tref wedi ei rhestru'n un o'r uchaf yn y sir. O'r 9fed mis Ionawr 2008, cafodd y ffi flynyddol ei lleihau i £12,000 gan yr uwchraddiwyd y System CTCC. Serch hynny, nid oedd y lleihad yn y gost CCTC wedi ei adlewyrchu mewn gostyngiad ym mhraesept y Cyngor Tref.

Dilewyd y 6 Camera TCC yn Llambled gan Gyngor Sir Ceredigion ar y 1 Ebrill 2014 oherwydd toriadau cyllidebol. Fel canlyniad, ni ddefnyddiwyd £7,500 a glustnodwyd ar gyfer y cyfleuster hwn, gan y Cyngor Tref yn ystod y flwyddyn ariannol 2014-15 i gwrdd â'r gost ddisgwyledig. Ni welwyd gostyngiad yn y Praesept 2015-16/2016-17 o £41,000 er nad oedd y Camerau TCC ar gynnig

bellach.

Mae'r arbedion hyn wedi galluogi'r Cyngor Tref i gwrdd â'i gostau blynyddol arferol, heb gynyddu'r Praesept ar gyfer y treth-dalwr, a hefyd at dwf yn ei gronfeydd wrth gefn.

Mae adolygiad ar y defnydd o GTCC a ariennir yn gyhoeddus ledled hanner Cymru wedi bod yn destun trafodaethau dwys. Mae darpariaeth y dyfodol yn nwylo'r Comisiynydd yr Heddlu Dafydd Llywelyn.

3.3 YR INCWM A GWARIANT Y FLWYDDYN BRESENNOL (1 Ebrill 2016-31 Mawrth 2017)

3.3.1 GWARIANT AM Y 12 MIS Y FLWYDDYN ARIANNOL 2016-17 YN SEILIEDIG AR WARIANT GWIRIONEDDOLYN YSTOD Y 9 MIS CYNTAF GAN GYNNWYS TAW

GWARIANT GWIRIONEDDOL O 1 EBRILL i 31 Rhagfyr, 2016 (O Lyfr Arian-Parod cynnwys TAW)	£41,771.71 Cyfeiriwch at y Daflen Incwm a Gwariant (Atodiad 1 & Atodiad 3-Taflen 1 a 2)
Tynnwch i ffwrdd y gost o Ginio'r Maer (cofnod dwbl)	(£1,266.40)
GWARIANT AR GYFER YR 9 MIS CYNTAF (GAN GYNNWYS TAW)	£40,505.31 llai £8,000 grant Llwybrau Diogel yn y Gymuned = £32,505.31
Gwariant a ragwelir AM Y 3 MIS NESAF	£10,835 (gan gynnwys TAW)
CYFANSWM GWARIANT rhagamcanol AM Y FLWYDDYN	£43,340 (yn cynnwys TAW)
CYFANSWM GWARIANT rhagamcanol EITHRIO TAW (TAW 2,089.69 + 696 a ragwelir.)	£40,555 (heb gynnwys TAW)

Yn ystod y flwyddyn flaenorol (2015-16) y gwariant gwirioneddol oedd £35,763.37 (yn cynnwys TAW llai £2,000 oherwydd trosglwyddiad mewnol) (Cinio'r Maer Cyflwyniad Dwbl (llai) £1,223.28) **Atodiad 2** £32,804 (heb TAW).

£40,555 (gwariant 2016-17 i gynnwys yr hyn a ragwelir) llai £32,804 (gwariant 2015-16) = £7,751 yn fwy wedi ei wario ym 2016-17 o gymharu â 2015-16.

£11,509 eisoes wedi ei roi i Elusennau ym 2016-17 (+ £3,836 amcangyfrwyd yn ystod y 3 mis nesaf) = £15,345.

£6,570 a gyfrannwyd ym 2015-16, gwahaniaeth, felly, £8,775.

Nid yw'r Grant Llwybrau Diogel yn y Gymuned o £8,000 wedi ei gynnwys yn y cyfrifiad gan y gellir defnyddio'r arian wrth gefn i gwrdd â'r gost.

3.3.2 INCWM AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL (yn dechrau 1 Ebrill 2016 ac yn diwedd 31 Mawrth 2017)

Y Praesept ar gyfer y flwyddyn 2016-17 £41,000

Ad-daliad TAW £1,736

Llog - Banc Lloyds Bond £1,143 (@ 23/01/2017)

Cinio'r Maer (cyflwyniad dwbl) £1,266

Llog ychwanegol £0.49

2 Allwedd Parc-yr-Orsedd £10.00

CYFANSWM £45,155.82 (llai £1,266 cinio'r Maer)

£43,890 (incwm).

CYFANSWM DERBYNIADAU LLAI CYFANSWM GWARIANT (gan gynnwys yr hyn a ragwelir)

£43,890 - £40,555 (heb TAW) = £3,335

3.4 PROSIECT Cae Maesyderi (heb gynnwys TAW)

GWARIANT 2009-10 (blwyddyn y brydleswyd y cae gan Gyngor Sir Ceredigion)	£6,536
GWARIANT 2010-11	£11,357
GWARIANT 2011-12	£1,694
GWARIANT 2012-13	£1,715
GWARIANT 2013-14	£102
GWARIANT 2014-15	£407
GWARIANT 2015-16 Torri Gwair £ 400 Arolwg Parc ROSPA £65 Eitem ar gyfer y Ffens £ 4.54	£470
GWARIANT 2016-17 Torri Gwair £300 Arolwg Parc ROSPA £66.50	£366.50

£22,648 a wariwyd cyn belled ar y prosiect hwn, i gynnal a chadw'r cae fel amwynder ar gyfer trigolion Llambled i gynnwys Grant yr Heddlu o £ 15,000.

Bwriadwyd adeiladu Trac Beic ar y maes a codwyd £ 910.60 at y diben hwn. Trosglwyddwyd £ 910.60 i gyfrif ar wahân. Trosglwyddwyd £301 (o'r £910.60) i Gyfrif Cyfredol Banc Lloyds y Cyngor Tref ym 2014; gyda'r bwriad o'i gyflwyno i ddisgyblion Ysgol Bro-Pedr maes o law i gynorthwyo gyda'r gwaith o adeiladu Trac Beic. Ni wireddwyd hyn a dychwelwyd y £301 i Mr Damian Conti (y person a dderbyniodd y £301 yn y lle cyntaf, i gynorthwyo â phrosiect ar gyfer yr leuenctid). Mae cynlluniau ar y gweill i ddefnyddio'r £601 i godi pyst gôl ar y cae.

Clustnodwyd Cyllideb o £1,500 y flwyddyn ar gyfer y Cae yn ystod y Cyfarfod Cyllideb Ionawr 2010.

Nid yw RAY Ceredigion yn cyfarfod bellach ar y cae ar y trydydd Sul y mis ac wedi adleoli i Barc-yr-Orsedd.

Cyfarfu Pwyllgor Rheoli Cae Maesyderi unwaith bob 2/3 mis i drafod materion yn ymwneud â'r Cae.

Parha'r Cae i fod yn Eiddo'r Cyngor Sir Ceredigion.

Gwnaethpwyd ymholiadau yn y gorffennol ar gyfer y Cyngor Tref i brynu'r cae ond ofer oedd yr ymdrech.

Mae'r ffens £9,018 gan gynnwys TAW a brynwyd ym 2010 gan y Cyngor Tref yn awr ym mherchenogaeth Cyngor Sir Ceredigion ac ni gynhwysir o fewn y Gofrestr Asedau Sefydlog y Cyngor Tref.

3.5 Y SWM rhagamcanol CRONFEYDD WRTH GEFN AR DDIWEDD Y FLWYDDYN ARIANNOL (yn dechrau 1 Ebrill 2016, a gorffen 31 Mawrth, 2017) y flwyddyn ariannol bresennol
Cyfeiriwch at Atodiad 1.

Os gwelir cysondeb yn y cyfradd gwariant yn ystod y 3 mis nesaf, bydd y balans y Cyfrif Cyfredol Banc Lloyds yn gostwng o £29,561.34 (llai £10,835 gan gynnwys TAW) i £18,726

Cyfrifon eraill ym meddiant y Cyngor Tref

Bond Banc Lloyds £108,000

Llog a ragwelir 23/01/2017 £1,143

Cymdeithas Adeiladu Abertawe £102

Cyfrif Cae Maesyderi £611

Cyfrif Busnes Banc Lloyds £833

CYFANSWM: £129,415 c/d 1/04/2017

CYMHARIAETH Â'r FLWYDDYN FLAENOROL

c/d 01/04/2016 £137,169 (Atodiad yn ymwneud â chyfrifon y Cyngor Tref 31 Mawrth 2016 ynghlwm) sy'n golygu gostyngiad o £ 7,754

3.6 ELUSENNAU: SWM PRIODOL O DAN ADRAN 137 (3) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Mae Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn caniatáu i gyngor tref neu gymuned wario ar weithgarwch nad oes ganddo bwerau penodol yn ei gylch, os yw'r cyngor yn ystyried y bydd y gwariant o fudd uniongyrchol i'r ardal, unrhyw ran ohoni, rhai o'r trigolion neu'r holl drigolion, cyn belled â bod y gost yn gyson â'r budd. Mae Adran 137 o'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i gynghorau cymuned wario at ddibenion elusennol penodol ac, yn y ddau achos, yr uchafswm y gellid ei wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18 yw £7.57 am bob etholwr. Gan fod 2,293 o bobl ar y rhestr etholiadol Llanbedr Pont Steffan (gwybodaeth sy'n deillio o ffigurau a ddyfynnwyd gan Gyngor Sir Ceredigion @ 1/03/2012)), yna gellir gwario £17,358.01 ar elusennau gan y Cyngor Tref.

Gwnaethpwyd cyfraniadau hael yn ystod y blynyddoedd diwethaf sef £15,000 ar gyfer y Pwll Nofio Llanbedr Pont Steffan, £20,000 Prosiect Neuadd Fictoria, £5,000 ar gyfer y Ganolfan Deuluol Llanbedr Pont Steffan ac £8,000 ar gyfer y Cynllun Teithiau Diogel yn y Gymuned. Cyfarfuwyd â'r gost o'r arian oedd wrth gefn. Y mae Adrannau eraill o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wedi caniatáu'r Cyngor Tref i ymwneud â'r grantiau hyn yn ychwanegol

at y Lwfans A137. Cyfeiriwch at Atodiad 3 Taflen 3 am ddadansoddiad o'r rhoddion a wnaed gan y CT. Mabwysiadwyd fformiwla gan Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan.

3.7 COSTAU PARHAUS / COSTAU DYFODOL

3.7.1 LLWYBRAU: Ni dderbyniwyd grant gan Gyngor Sir Ceredigion i gynnal a chadw llwybrau troed, ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol fel blynyddoedd cynt. (£ 1,330 gwariwyd 2016-17).

3.7.2 PARC YR ORSEDD: Codwyd ffens newydd £ 5,343 (heb TAW) yng Ngorffennaf 2014. Arolygwyd y Parc gan y Darparwyr RoSPA am ffi o £66.50 (heb gynnwys TAW) a gwnaed argymhellion penodol, sy'n derbyn sylw (£420 a wariwyd cyn belled). Mae'r gost flynyddol o gyflogi gofalwr sy'n torri glaswellt (Ebrill i Fedi), edrych am arwyddion fandaliaeth ac yn casglu sbwriel yn rheolaidd wedi bod yn £1,500. Bydd y torrwr-glaswellt presennol yn casglu sbwriel yn ystod misoedd Hydref i Mawrth yn gynwysiedig yn ddi-dâl. Tociwyd perth ym Mharc-yr-Orsedd am £280. Bydd Gwasanaeth Coed Llambod yn torri coed penodol o fewn y parc am ffi o £240. Prynwyd clo newydd ym mis Ebrill £15.41 (heb TAW). Gallai costau pellach godi petai cyfarpar chwarae ychwanegol a gwelliannau eraill eu hangen.

3.7.3 LLEOLIAD CYFARFODYDD: Cynhelir Cyfarfodydd misol y Cyngor y Dref yn Neuadd Eglwys San Pedr (£ 9.50 yr awr), ers adleoli o Neuadd y Dref, wyth mlynedd ynghynt. Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd yn Festri Capel Shiloh (£ 8.50 yr awr). Gellid ystyried lleoliadau eraill yn y dyfodol.

3.7.4 HYFFORDDIANT AR GYFER CLERCOD A CHYNGHORWYR: Y mae Llywodraeth Cymru o blaid hyfforddiant ar gyfer Cyngorwyr a Chlercod. Gellid cynnwys Cyllideb hyfforddiant o fewn Praesept y flwyddyn nesaf.

3.7.5 COSTAU TEITHIO (gosodwyd ar hyn o bryd fel 45c y filltir ar gyfer Cyngorwyr yn unig). Gall gyngorwyr dderbyn ad-daliad parthed treuliau megis argraffu a llungopio.

3.7.6 DWYIEITHRWYDD; Byddai costau ychwanegol yn codi, petai'r Cyngor Tref yn dymuno cynyddu'r ddarpariaeth yr Iaith Gymraeg. Y mae'r Clerc yn cael ei chyflogi am 12 awr y mis i weithredu Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor Tref ers ei sefydlu ym 2007. Cyflwynwyd Cyfieithydd ar y Pryd yn ystod Cyfarfodydd Cyngor Tref Misol ym Mehefin 2015 am dâl o £35.00 yr awr. Cyflogir cyfieithydd ar y pryd yng Ngwasanaeth Urddo'r Maer. Cymeradwyodd y Cyngor Tref y Fenter Shwmae! Shwmae! A Ras yr Iaith.

3.7.7 Cae Maesyderi: Gellid adolygu'r gyllideb flynyddol bresennol o £1,500.

3.7.8 GOLEUADAU STRYD: Diffoddir nifer o oleuadau stryd o 12 hanner nos i 05:00. Y Cyngor Tref sy'n talu am y trydan sy'n gysylltiedig â'r Goleuadau Nadolig a'r Gofeb Ryfel.

3.7.9 LWFANS Y MAER

Penderfynwyd ei gynyddu 1.5% yn flynyddol yn ystod y Cyfarfod Cyllideb Ionawr 2010. (£3,004.40 - 2016-17)

3.7.10 COSTAU RHEDEG SWYDDFA

- **Y mae gwario'n ofalus ar bapur-copi**, inc ac amlenni wedi lleihau costau. Nid yw llythyron, y gellir eu dosbarthu â llaw, fel arfer yn cael eu postio. Anfonir negeseuon e-bost at y rhai sy'n meddu ar gyfleusterau electronig, gan osgoi y gost o argraffu a dosbarthu dogfennau. (Ond cost ychwanegol i'r derbynnydd petai ef/hi yn dewis argraffu'r ddogfen)

- **Band Eang** / Ffôn oddeutu. £130 y chwarter (heb TAW).

- **System Gyfrifiadurol:** Prynwyd ben-desg newydd ac argraffydd (inc du yn unig, nid lliw) ym mis Mawrth 2016 £784 (yn cynnwys TAW).

3.7.11 CYFLOG Y CLERC: Penderfynwyd yn ystod y Cyfarfod Cyllideb mis Ionawr 2010 y byddai'r Clerc yn derbyn ychwanegiad blynyddol ym mis Mai. Y cyflog presennol yw (12 awr yr wythnos + 12 y mis i weithredu'r Polisi Iaith Gymraeg), sy'n cyfateb, yn ystod 2016-2017, i **£9,099.36** (net) £1,101.62 (Treth a YG Gweithiwr & Chyflogwr y flwyddyn, a delir i Gyllid a Thollau EM yn Amser lawn).

3.7.12 Hysbysfwrdd Cyngor y Dref: Cafodd ei thrwsio, yn ystod y flwyddyn ariannol 2013-14; Pris: £ 578 (heb gynnwys TAW)

3.7.13 Cadwyn y Maer: mae angen trwsio'r gadwyn.

3.7.14 Gwefan y Cyngor Tref: derbyniwyd grant o £500 yn ystod y flwyddyn ariannol 2013-14 i ymwneud â gwelliannau parthed safle ar y we y Cyngor Tref. Amlygwyd yr angen o sicrhau bod yr wybodaeth ar y wefan yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Y gost lletya blynyddol yw £415 (heb gynnwys TAW) a HCI-Data Adnewyddu lampeter-tc.gov.uk £300.

3.7.15 TWRISTIAETH: Gwelwyd presenoldeb y Cyngor Tref ar faes yr Ŵyl Fwyd Llanbedr PS, yn ystod y bump mlynedd diwethaf.

3.7.16 YSWIRIANT Y CYNGOR TREF (Zurich Municipal-

Bwrdeistrefol): Y mae'r premiwm blynyddol tua £1,500 ac yn cynnwys y Gliniadur, Addurniadau Nadolig, Teyrndlysau Dinesig, Clogau Dinesig, 4 Cynhwysydd Plannu a'r Cewyll fforch. Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus: £ 10,000,000. Gwarant Ffyddlondeb £ 250,000. Gallai'r gost gynyddu petai trefniadau yswiriant pellach yn cael eu cyflwyno.

3.7.17 LLOCHESI BWS: Glanheir y 4 cysgodfan bws bob 2 fis am gost o £10/lloches-bws.

3.7.18 ARCHWILIAD ARIANNOL Y CYNGOR TREF 2015-16:

Archwiliad Allanol £231 (TAW £0); Grant Thornton Swyddfa Archwilio Cymru. Archwiliad Mewnol: Mr D Marshall £ 150.

3.8 PROSIECTAU NEWYDD

Gallai costau ychwanegol godi megis:

- 3.8.1 Gwnaeth y Cyngor Tref ymholiadau ynghylch mabwysiadu o bosibl yr Ardd Goffa Rhyfel Llanbedr Pont Steffan.** Y mae costau blynyddol parhaus presennol yn gysylltiedig â chynnal a chadw a darparu planhigion (a ddyfynnwyd gan Gyngor Sir Ceredigion) oddeutu £4,800.
- 3.8.2 Arddangosfeydd Blodau dros fisoedd yr haf:** Bydd y Cyngor Tref yn cymryd cyfrifoldeb am drefnu arddangosfeydd blodau yn y dyfodol o fewn y dref dros fisoedd yr haf. Talwyd costau dyfrio gan y Cyngor Tref ym 2016 (£4,200 cyn TAW) ond bydd costau pellach yn codi eleni.
- 3.8.3 Maes Chwarae Maesyfelin:** Gallai Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan gymryd cyfrifoldeb am yr Ardal Chwarae yn ystod y dyfodol.
- 3.8.4 Arddangosfa Goleuadau Nadolig y Dref**
- 3.8.5 Y Ffynnon, Sgwâr Harford:** mae'r Cyngor Tref yn trafod â Ch.S Ceredigion y posibilrwydd o drosglwyddo'r Ffynnon o ofal y Cyngor Sir i Gyngor y Dref.
- 3.8.6 Llwybrau Diogel yn y Gymuned - Cyngor Sir Ceredigion:** Ail Gam.
- 3.8.7 Costau etholiad** ym mis Mai 2017.
- 3.8.8 Arwyddion** ar gyfer mynedfeydd y dref

4.0 CASGLIAD

PENNU'R PRAESEPT (2017-18)

Y mae nifer o opsiynau parthed pennu'r Praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r holl gyfrifon yn cynnwys TAW - 20% o fis Ionawr 2011 ymlaen.

CHWYDDIANT: Y mae cyfradd chwyddiant yn ddangosydd economaidd pwysig a dyma'r raddfa sy'n mesur sut y mae prisiau'n codi. Y mae chwyddiant yn gynnydd mewn pris ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Mae'r Banc yn awr yn disgwyl i chwyddiant i gyrraedd 2.7% y flwyddyn nesaf, i fyny o'r gyfradd bresennol o 1%.

Mae'r opsiynau a ganlyn:

OPSIWN 1

Dim newid yn lefel y Praesept hy mae'n parhau ar £41,000

Costau rhedeg arferol (heb TAW) £40,555

Lwfans ar gyfer chwyddiant @ 2.7% £1,095

CYFANSWM £41,650

Gallai'r costau ychwanegol eu talu o'r gronfa wrth gefn.

OPSIWN 2

Mae'r praesept yn cael ei ostwng yn y flwyddyn ariannol nesaf i, er enghraifft, £39,000. Gallai'r costau ychwanegol gael eu talu o'r gronfa wrth gefn.

OPSIWN 3

Mae'r Praesept yn cael ei gynyddu i dalu costau rhedeg arferol neu ei gynyddu ymhellach i gwrdd â gofynion prosiectau newydd.

5.0 ARGYMHELLION

O ganlyniad i'r ymchwiliad, argymhellir aelodau'r Cyngor Tref i roi ystyriaeth ddyledus i'r canlynol:

- 5.1** Gellid Dewis Opsiwn 1, hy £41,000 fydd y swm a godir dan law'r Praesept ac yn aros yr un fath. Croesawir cyllideb di-gyfnewid gan drethdalwyr. Mae'r cyngor sir a'r heddlu'n ystyried cynnydd yn eu cyfran o'r dreth gyngor. Gellir cwrdd â chyfran uchel o'r costau bob-dydd o fewn y gyllideb hon. Gellir cwrdd â chostau pellach o'r cronfeydd wrth gefn.
- 5.2** Dylid ystyried Opsiwn 2. Croesawir gostyngiad yn lefel y praesept gan nifer o drethdalwyr. Byddai gostyngiad o £1,000 yn golygu arbediad blynyddol o £1 ar gyfer Trethdalwr y Cyngor Band D.
- 5.3** Gellir clustnodi sylw i Opsiwn 3 sef cynnydd yn y Praesept. Gwaed gostyngiad oddeutu £2,000 yn ystod y 4 blynedd ariannol ddiwethaf o gymharu â'r 8 mlynedd cynt sef swm cyson o £ 43,220 .
- 5.4** Dylid clustnodi sylw i'r gronfa wrth gefn sef **£129,415**. Mae'r archwilydd allanol Grant Thornton wedi cwestiynu paham y mae'r gronfa wrth gefn yn uchel o gymharu â'r Praesept. Y mae Asedau Sefydlog y Cyngor Tref yn cynnwys eitemau, sydd angen cynnal a chadw rheolaidd sylweddol a / neu amnewid. Mae'r Archwilydd Mewnol wedi awgrymu gosod Cronfa Suddo mewn lle i gwrdd â'r costau hyn.
- 5.5** Dioddefa Llywodraeth Leol gostyngiad gwariant sylweddol. Bydd toriadau dwfn mewn buddsoddiad cyfalaf ar gyfer blynyddoedd i ddod. Bydd trosglwyddo cyfrifoldeb am brosiectau penodol gan Gyngor Sir Ceredigion i Gyngor y Dref, er enghraifft arddangosfeydd blodau yn y dref, yr Ardd Goffa'r Rhyfel, Y Ffynnon, Sgwâr Harford yn golygu costau ychwanegol i'r Cyngor Tref.
- 5.6** Dylai'r arian wrth gefn barhau i'w fuddsoddi mewn cyfrifon, sy'n cynnig y gyfradd llog orau. Mae hyn wedi golygu cynllunio gofalus yn y gorffennol wrth i Gyfradd-Sylfaen Banc Lloegr ostwng yn aruthrol. Mae rhai problemau wedi codi pan oedd angen arian di-rybudd a chronfeydd wedi eu cloi am amser penodedig. Cedwir y Praesept ar hyn o bryd yng nghrif bob dydd Banc Lloyds (0.01% llog blynyddol) a gellir defnyddio'r arian yn ôl yr angen.
- 5.7** Dylid adolygu'r hyn a roddir i elusennau lleol yn rheolaidd.
- 5.8** **Opsiwn 1 a ffafriwyd gan y Swyddog Ariannol hy dim newid yn lefel y Praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18, oherwydd:**
 - Yr hinsawdd economaidd bresennol;
 - Haelioni Praeseptau gorffennol, oherwydd newidiadau yn y gost taliad

Camerau TCC &

- **Yr arian wrth gefn ym meddiant y Cyngor Tref ar hyn o bryd.**